# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 6 Mai 2014** |
| Amser: | **09.00 – 10.32** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_06_05_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC (yn lle Alun Ffred Jones AC)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Mark Jones, Cadeirydd, Colegau Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones. Roedd Jocelyn Davies yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru a nododd nad oedd yn darparu gwybodaeth am y gost o ddiogelu cyflogau yn GIG Cymru (Argymhelliad 12). Gofynnodd yr Aelodau i'r Archwilydd Cyffredinol edrych ar y mater hwn fel rhan o'r gwaith pellach y mae wedi ymrwymo i'w wneud.

## 4 Cyflogau Uwch-reolwyr: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Bu'r pwyllgor yn holi Mark Jones, Pennaeth Coleg Gŵyr a Chadeirydd Colegau Cymru, ar gyflogau uwch-reolwyr.

4.2 Cytunodd Mark Jones i anfon y wybodaeth ganlynol:

- manylion pellach am sut y cyrhaeddwyd y ffigurau ar gyfer Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Gwent;
- beth yw 'benefit in kind';
- yr adroddiad meincnodi diweddaraf gan Gymdeithas y Colegau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

6.2 Gofynnodd yr Aelodau fod y Gwasanaeth Ymchwil a/neu Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried a yw uno'r colegau wedi arwain at gynnydd mewn cyflogau penaethiaid.

## 7 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Yn amodol ar un newid bach, cytunodd yr Aelodau yr adroddiad drafft.